**<u>Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 05-01(p1)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm - 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG**

Clwy’r Traed a’r Genau

1. Am 1200 o’r gloch ar 26 Mawrth, roedd cyfanswm o 40 o achosion wedi’u cadarnhau yng Nghymru: 24 ym Mhowys; 13 yn Ynys Môn; a 3 yn Sir Fynwy. Roedd tri ar ddeg o achosion eraill yn cael eu harchwilio: 9 ym Mhowys a 4 yn Ynys Môn.

2. Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd 30,500 o anifeiliaid wedi’u lladd yng Nghymru o dan y mesurau i reoli clwy’r traed a’r genau – 2767 o wartheg; 27,735 o ddefaid; 13 o foch ac 11 gafr.

3. Hyd yma, rhoddwyd 4638 o drwyddedau yng Nghymru i ganiatáu symud anifeiliaid o dan amodau caeth at ddibenion lles. Ymhlith y rhain mae 3169 o drwyddedau galwedigaethol a 1469 o drwyddedau lleol. Yn ogystal â hyn, y tu allan i’r ardaloedd heintiedig ac er mwyn ymdrin â materion lles, cyflwynwyd cynllun trwyddedu i ganiatáu symud da byw ymhellach. Hyd yma, dyfarnwyd 373 o’r trwyddedau hynny.

4. Yn fwy cyffredinol, cyhoeddais ar 22 Mawrth y byddai Grwp Gorchwyl a Gorffen Gwledig yn cael ei sefydlu i drafod materion yn deillio o glwy’r traed a’r genau a rhoi cyngor i’r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch camau i helpu busnesau gwledig. Lluniwyd y Grwp, a gadeirir ar y cyd gan y Dirprwy Brif Weinidog a minnau, o Bartneriaeth Wledig Cymru ac mae’n cynnwys yr holl brif garfanau gwledig perthnasol. Cylch gwaith y Grwp yw:

- cynghori llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch materion yn ymwneud â’r economi wledig yn sgil clwy’r traed a’r genau;
- rhoi cyngor ynghylch y camau sydd eu hangen i helpu busnesau gwledig;
- llunio cynllun i helpu i ail-lansio’r economi wledig.

5. Cyfarfu’r Grwp am y tro cyntaf ddydd Gwener 23 Mawrth. Byddaf yn rhoi gwybod i’r Pwyllgor

ar lafar am drafodaethau’r Grwp ac am sefyllfa clwy’r traed a’r genau’n fwy cyffredinol.

## Taliadau Tir Mynydd

6. Ar 22 Mawrth, roedd dros £34.8 miliwn o daliadau Elfen 1 Tir Mynydd wedi’u prosesu. Golyga hyn fod 86% o’r taliadau cymwys ar gyfer Elfen 1 Tir Mynydd wedi’u talu.

## Taliadau PAC eraill

7. Erbyn dydd Iau 22 Mawrth roedd 94% (£15.1 miliwn) o geisiadau am rag-daliadau Premiwm Buchod Sugno (SCPS) 2000 wedi’u prosesu.

8. Rydym hefyd wedi talu 77% (£895,000) o daliadau Iawndal Amaeth-ariannol Trosiannol (2il haen) i gynhyrchwyr a dderbyniodd daliadau Buchod Sugno 1999.